

Adnabod rhifau

Dewiswch un rhif ar gyfer yr wythnos, e.e. 2.

Anogwch eich plentyn i chwilio am y rhif hwn drwy'r amser.

- ♦ Ydy'ch plentyn yn gallu gweld y rhif 2 rhywle?

gartref	- yn y gegin - ar dudalennau llyfr
yn y stryd	- ar ddrysau - ar rifau cofrestru ceir - ar y bysus
tra'n siopa	- ar dil y siop - ar y silffoedd - mewn ffenestri siopau


- ♦ Dowch o hyd i ddau o'r rhain, afal, tegan, llwy, gwelltyn, losin etc.
- ♦ Gwnewch batrymau e.e dwy gyllell, dwy fforc, dwy lwy, dwy gyllell, dwy fforc, dwy lwy ...
- ♦ Beth am ymarfer ysgrifennu'r rhif 2?

Dewiswch rif gwahanol bob wythnos

Gem ddis


Defnyddiwch ddis â dotiau ac ysgrifennwch y rhifau 1 i 6 ar ddarn o bapur (neu gallwch ddefnyddio'r anifeiliaid â rhifau arnynt).

- ♦ Taflwch y dis. A all eich plentyn ddyfalu sawl dot sydd? Gwiriwch drwy gyfrif.
- ♦ Gofynnwch i'ch plentyn pa rif ar y papur sy'n cyfateb i'r dotiau ar y dis.



Targedau i ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn

YGG Castell-nedd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Derbyn 1

Erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Dweud un, dau, tri, pedwar ... hyd at ddau ddeg.
- Cyfrif hyd at 10 eitem.
- Adnabod y rhifau ysgrifenedig 1, 2, 3, 4... hyd at 9.
- Defnyddio geiriau fel *mwy*, *llai*, *trymach*, *ysgafnach* i gymharu pethau.
- Dod o hyd i 1 yn fwy neu 1 yn llai nag unrhyw rif o 1 i 10.
- Adio dau grŷp bach o bethau (cyfanswm 10 neu lai).
- Cyfrif sawl un sydd ar ôl pan fydd rhai pethau'n cael eu tynnu.
- Gwneud patrymau syml a siarad amdanynt.
- Enwi siapiau fel *cylch*, *sgwâr*, *triangl*, *petryal*, *ciwb*, *côn* a *sfêr*.
- Defnyddio geiriau fel *dros*, *o dan*, *uwchben*, *islaw*, *ar*, *yn*, *nesaf at*, *yn ymyl* i ddisgrifio ble mae pethau.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn Dderbyn.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plentyn sy'n gallu cyfrif hyd at 10 yn dal i gael trafferth i ddweud pa rif sy'n dod ar ôl 5. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gychwyn ar 1 a chyfrif ymlaen.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Cyfrif a rhoi rhifau yn eu trefn

Defnyddiwch hen gylchgronau, comics neu gardiau cyfarch. Torrwch luniau o anifeiliaid, neu unrhyw beth arall y mae gan eich plentyn ddi-ddordeb ynddo. Labelwch yr anifeiliaid 1 i 5.



- ◆ Shifflwch yr anifeiliaid. Rhowch yr anifeiliaid mewn trefn o 1 i 5.
- ◆ Tynnwch un anifail. Gofynnwch i'ch plentyn pa rif sydd ar goll. Ailadroddwch gyda rhifau eraill a mwy nag un rhif coll.
- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn ddweud pa rif sy'n dod cyn ac ar ôl rhif o'ch dewis chi.

Pan fydd eich plentyn yn gallu gwneud hyn, ailadroddwch gyda rhifau o 1 i 10.